OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2156 (Cy. 211)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013

*Gwnaed - - - - 28 Awst 2013*

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), adroddiad dyddiedig Ionawr 2013 ar adolygiad a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o'r ffiniau cymunedol yn Sir Torfaen, ynghyd â'r cynigion y mae'r Comisiwn wedi eu llunio ar y ffiniau cymunedol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny heb eu haddasu.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau hynny a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**).

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013.

### Cychwyn

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2),

(a) at bob diben a nodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y diwrnod ar ôl diwrnod ei wneud;

(b) at bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau.

(2) Daw erthyglau 5, 6 a 10 yn weithredol—

(**1**) 1972 p.70; diwygiwyd adran 54(1) gan baragraff 7(1) o Atodlen 15 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19), paragraff 12 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1992 (p.19) ac adran 40(2) o Ddeddf yr Heddlu a Llysoedd Ynadon 1994 (p.29); diwygiwyd adran 58(1) gan baragraff 11(1) o Atodlen 15 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19), ac adran 168(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (p.4).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac fe'u breiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(a) at ddiben trafodion sy'n rhagarweiniol i unrhyw etholiad i'w gynnal ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr ar ôl i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud, neu sy'n ymwneud ag etholiad o'r fath, ar 15 Hydref yn y flwyddyn cyn y diwrnod hwnnw;

(b) at bob diben arall, ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr a chynghorwyr cymuned ar ôl i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau ar gyfer erthyglau 5, 6 a 10.

**Dehongli**

**3.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "newydd" ("*new*"), o ran ardal llywodraeth leol neu ardal etholiadol, yw'r ardal honno fel y'i sefydlir gan y Gorchymyn hwn;

ystyr "presennol" ("*existing*"), o ran ardal llywodraeth leol neu ardal etholiadol, yw'r ardal honno fel y mae'n bodoli yn union cyn y diwrnod penodedig;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**);

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn gyfeiriad at un o'r saith map a farciwyd "Map Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013", a labelwyd yn briodol 1 i 8 er mwyn cyfeirio atynt ac a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

mae unrhyw gyfeiriad at adran etholiadol yn gyfeiriad at adran etholiadol o Fwrdeistref Sirol Torfaen; ac

os dangosir ar fap fod ffin yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, caiff ei thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

**Newidiadau yn ardaloedd llywodraeth leol**

**4.** Mae newidiadau wedi eu gwneud yn ardal llywodraeth leol Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

**Croesyceiliog a New Inn – Newidiadau i Ardaloedd Cymunedol a Newidiadau Canlyniadol i'r Trefniadau Etholiadol**

**5.**—(1) Mae'r rhannau o gymuned New Inn a ddangosir â chroeslinellau ar Fapiau 1 a 2—

(a) wedi eu trosglwyddo i gymuned Croesyceiliog;

(b) yn rhan o ward Gogledd Croesyceiliog yng nghymuned Croesyceiliog; ac

(c) yn rhan o adran etholiadol Gogledd Croesyceiliog.

(2) Yng nghymuned Croesyceiliog, 5 yw nifer y cynghorwyr cymuned sydd i'w hethol ar gyfer ward Gogledd Croesyceiliog.

**Llanyrafon – Newidiadau i Wardiau Cymunedol a Newidiadau Canlyniadol i'r Trefniadau Etholiadol**

**6.**—(1) Yng nghymuned Llanyrafon—

(a) mae wardiau cymunedol presennol Gogledd Llanyrafon a De Llanyrafon wedi eu diddymu;

(**3**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn).

(b) mae wardiau cymunedol newydd Dwyrain Llanyrafon a Gorllewin Llanyrafon wedi eu creu, a ddangosir ar Fap 3 fel yr ardaloedd wedi eu marcio "Ward Dwyrain Llanyrafon" a "Ward Gorllewin Llanyrafon" yn y drefn honno;

(c) mae adrannau etholiadol presennol Gogledd Llanyrafon a De Llanyrafon wedi eu diddymu;

(d) mae adran etholiadol newydd Gorllewin Llanyrafon wedi ei chreu, gan gynnwys ward gymunedol newydd Gorllewin Llanyrafon;

(e) mae adran etholiadol newydd Dwyrain Llanyrafon a Phonthir wedi ei chreu, gan gynnwys ward gymunedol newydd Dwyrain Llanyrafon a chymuned bresennol Ponthir;

(f) 1 yw nifer y cynghorwyr cymuned sydd i'w hethol ar gyfer ward Dwyrain Llanyrafon a 3 yw'r nifer ar gyfer ward Gorllewin Llanyrafon; ac

(g) 1 yw nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer adran etholiadol Dwyrain Llanyrafon a Phonthir ac 1 yw'r nifer ar gyfer adran etholiadol Gorllewin Llanyrafon.

**Abersychan a Phen Transh – Newidiadau i Ardaloedd Cymunedol a Newidiadau Canlyniadol i'r Trefniadau Etholiadol**

**7.** Mae'r rhan o gymuned Abersychan a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 4—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pen Transh;

(b) yn rhan o ward Snatchwood yng nghymuned Pen Transh; ac

(c) yn rhan o adran etholiadol Snatchwood.

**Cwmbrân Uchaf a Phontnewydd – Newidiadau i Ardaloedd Cymunedol a Newidiadau Canlyniadol i'r Trefniadau Etholiadol**

**8.** Mae'r rhan o gymuned Cwmbrân Uchaf a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 5—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pontnewydd;

(b) yn rhan o ward Mount Pleasant yng nghymuned Pontnewydd; ac

(c) yn rhan o adran etholiadol Pontnewydd.

**Fairwater a Chwmbrân Canolog – Newidiadau i Ardaloedd Cymunedol a Newidiadau Canlyniadol i'r Trefniadau Etholiadol**

**9.** Mae'r rhan o gymuned Fairwater a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 6—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cwmbrân Canolog;

(b) yn rhan o ward St Dials yng nghymuned Cwmbrân Canolog; ac

(c) yn rhan o adran etholiadol St Dials.

**Fairwater a Chwmbrân Uchaf – Newidiadau i Ardaloedd Cymunedol a Newidiadau Canlyniadol i'r Trefniadau Etholiadol**

**10.**—(1) Mae'r rhan o gymuned Fairwater a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 7—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cwmbrân Uchaf; a

(b) yn rhan o adran etholiadol Cwmbrân Uchaf.

(2) Yng nghymuned Cwmbrân Uchaf, mae ward gymunedol newydd Thornhill wedi ei chreu, gan gynnwys yr ardal a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 8.

(3) Yng nghymuned Cwmbrân Uchaf, 1 yw nifer y cynghorwyr cymuned sydd i'w hethol ar gyfer pob un o wardiau Dwyrain Cwmbrân Uchaf, Gorllewin Cwmbrân Uchaf a Thornhill.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

28 Awst 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*


Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi effaith i gynigion y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn"), a hynny heb eu haddasu. Ym mis Ionawr 2013, cyflwynodd y Comisiwn adroddiad ar adolygiad a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o ffiniau cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Torfaen. Yn yr adroddiad, argymhellwyd newidiadau i nifer o ffiniau presennol.

Effaith y Gorchymyn hwn yw bod newidiadau i nifer o ardaloedd cymunedol a rhai newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cynghorau cymuned. Mae newidiadau wedi eu gwneud i ffiniau Abersychan, Croesyceiliog, Cwmbrân Canolog, Fairwater, New Inn, Pen Transh, Pontnewydd a Chwmbrân Uchaf. Mae wardiau cymunedol presennol Llanyrafon, sef Gogledd Llanyrafon a De Llanyrafon, wedi eu diddymu ac mae wardiau cymunedol newydd Dwyrain Llanyrafon a Gorllewin Llanyrafon wedi eu creu. Mae ward gymunedol newydd Thornhill wedi ei chreu. Mae newidiadau canlyniadol wedi eu gwneud i'r trefniadau etholiadol yn Sir Torfaen, gan gynnwys creu adrannau etholiadol newydd Dwyrain Llanyrafon a Phonthir, a Gorllewin Llanyrafon.


Mae printiau o fapiau 1 i 8 sy'n dangos y ffiniau ac y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo a gellir edrych arnynt yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Llywodraeth Leol a Chymunedau).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Map 1 Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013



**Map 2 Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013**





Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2013.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Llywodraeth Cymru. Rhif y Drwydded: 100021874

199.12-13 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Daearyddiaeth a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru

***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*


## Map 3 Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2013.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Llywodraeth Cymru. Rhif y Drwydded: 100021874

199.12-13 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Daearyddiaeth a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru

## Map 4 Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013





Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2013.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Llywodraeth Cymru. Rhif y Drwydded: 100021874

199.12-13 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Daearyddiaeth a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru

*Statws* This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.


## Map 5 Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2013.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Llywodraeth Cymru. Rhif y Drwydded: 100021874

199.12-13 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Daearyddiaeth a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru

## Map 6 Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013





Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2013.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.
Llywodraeth Cymru. Rhif y Drwydded: 100021874

199.12-13 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Daearyddiaeth a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*


## Map 7 Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2013.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif y Drwydded: 100021874

199.12-13 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Daearyddiaeth a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru

**Map 8 Gorchymyn Torfaen (Cymunedau) 2013**




Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron 2013.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif y Drwydded: 100021874

199.12-13 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Daearyddiaeth a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru